

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Ymchwiliad i Effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach: Cylch Gorchwyl

Your contact details

Enw:	Rebecca Williams, Swyddog Polisi
Sefydliad (a'ch rôl os yw'n berthnasol):	UCAC
Rhif Ffôn / Ffôn symudol:	01970 639950
E-bost:	rebecca@ucac.cymru

Datgelu gwybodaeth

Mae polisi'r Cynulliad ynghylch datgelu gwybodaeth i'w weld yma. Gofalwch eich bod yn ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor. Gellir gofyn am y polisi hwn mewn fformatau eraill drwy gysylltu â Chlerc y Pwyllgor.

Cyflwyno tystiolaeth

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig o'ch cyflwyniad at SeneddCYPE@cynulliad.cymru.

Fel arall, gallwch ei hanfon at:

Sarah Bartlett,
Dirprwy Glerc,
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd,
CF99 1NA.



Canlyniadau dysgwyr a chyflogadwyedd

Cwestiwn 1: Beth yw'r heriau posibl i lwyddiant dysgwyr a'u cyflogadwyedd yn y dyfodol ar ôl Brexit, a beth a wneir a beth fydd yn bosibl ei wneud i oresgyn yr heriau hyn?

Ymateb Rhanddeiliaid i Gwestiwn 1:

Gweler Cwestiwn 2 (Erasmus +).

Cwestiwn 2: I ba raddau y byddai colli cynllun symudedd ERASMUS+ yn effeithio ar y sector, a beth yw'r cyfleoedd ar gyfer cynlluniau symudedd eraill sy'n bod neu y gellid eu datblygu'n synhwyrol?

Ymateb Rhanddeiliaid i Gwestiwn 2:

Mae pryderon sylweddol ynghylch y perygl o golli mynediad i'r cynllun Erasmus+.

Mae gan y cynllun Erasmus rôl mewn cynnig cyfleoedd nid yn unig ar gyfer cyfnodau preswyl dramor, ond ar gyfer teithiau gwaith maes. Gall y naill math o brofiad a'r llall gynorthwyo i sefydlu cysylltiadau rhwng sefydliadau ac unigolion yng Nghymru ac mewn amrywiol ardaloedd o gyfandir Ewrop – cysylltiadau a all ddod â budd hirdymor ar nifer o wahanol lefelau (unigol/gyrfaol/personol, sefydliadol, a chymdeithasol/gwleidyddol).

Cynaliadwyedd ariannol a chyfleoedd buddsoddi

Cwestiwn 3: Pa heriau posib y gallai Brexit eu cyflwyno o ran cynaliadwyedd ariannol sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch?

Ymateb Rhanddeiliaid i Gwestiwn 3:

Cwestiwn 4: Pa mor ddibynnol yw cynlluniau buddsoddi sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch ar arian Ewropeaidd, a beth yw'r cyfleoedd ar gyfer ffynonellau cyllid buddsoddi eraill?

Ymateb Rhanddeiliaid i Gwestiwn 4:



Cyllid a chydweithredu o ran ymchwil ac arloesi

Cwestiwn 5: I ba raddau y mae sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch yn dibynnu ar gyllid ymchwil ac arloesi yr UE yn y dyfodol?

Ymateb Rhanddeiliaid i Gwestiwn 5:

Ar hyn o bryd, mae'n bosib i academyddion mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru gydweithio gydag academyddion o brifysgolion mewn gwledydd eraill yn yr Undeb Ewropeaidd (UE), er enghraifft ar brosiectau cymharol. Gall rhain fod yn brosiectau sylweddol iawn eu maint, a/neu'n brosiectau mewn meysydd penodol iawn.

Yn y cyswllt hwn, mae pryderon yn codi ynghylch a fydd y math hyn o waith yn bosib yn y dyfodol yn sgil:

- lleihad cyffredinol yn y cyfleoedd am ariannu (nifer y ffynonellau, ac o bosib maint y ffynonellau Prydeinig yn ogystal)
- rhwystrau gweinyddol eraill i gydweithio a sefydlu rhwydweithiau ymchwil Ewropeaidd a allai ddod yn sgil Brexit
- blaenoriaethau'r cynghorau ymchwil Prydeinig, sy'n gallu bod yn wahanol iawn i'r ffynonellau Ewropeaidd, ac o bosib yn llai cydnaws â rhai meysydd ymchwil cymdeithasegol/gwleidyddol â dimensiwn 'Cymreig' mewn cyd-destun cymharol

Cwestiwn 6: Beth sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd, a beth ellir ei wneud i ddiogelu cydweithio a rhwydweithiau ymchwil yr UE wrth baratoi ar gyfer Brexit ac ar ôl hynny?

Ymateb Rhanddeiliaid i Gwestiwn 6:

Unrhyw faterion perthnasol eraill

Cwestiwn 7: A oes unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i'r ymchwiliad hwn?

Ymateb Rhanddeiliaid i Gwestiwn 7:

